# Gemau geirfa - Adnoddau

| Gair | Diffiniad | Enghraifft |
|---|---|---|
| Gwario | Defnyddio arian i dalu am rywbeth. | Mae Dylan yn ymdrechu i beidio â gwario ei arian i gyd. |
| Cost | Gwerth y mae'n rhaid ei gyfnewid am eitem NEU y gwerth y cymerodd i greu rhywbeth. | Faint yw cost y lolipop yna? |
| Swydd | Gwaith rheolaidd yr ydych yn cael tâl amdano. | Fy swydd i yw addysgu plant. |
| Darnau arian | Math o arian metel sy'n cael ei ddefnyddio i brynu pethau. | Mae gen i 2 o ddarnau arian £1 yn fy waled. |
| Cwsmer | Rhywun sy'n prynu nwyddau neu wasanaethau. | Mae Rhiannon yn gweithio mewn siop ac yn helpu'r cwsmer i brynu pethau. |
| Gwerthu | Cyfnewid rhywbeth am arian. | Rwy'n mynd i werthu rhai o fy hen deganau. |
| Eisiau | Dymuno rhywbeth yr hoffech ei gael. | Rwyf eisiau injan dân degan. |
| Angen | Diffyg rhywbeth sy'n bwysig i'ch diogelwch neu iechyd. | Mae angen bwyd a dŵr arna i. |
| Prynu | Cyfnewid arian am rywbeth. | Mae Dylan yn mynd i brynu injan dân degan. |
| Talu | Y weithred o roi arian yn gyfnewid am rywbeth. | Mae'n rhaid i Dylan dalu y siopwr am ei injan dân degan. |
| Arian parod | Arian ar ffurf darnau arian neu arian papur. | Mae gen i arian parod yn fy waled. |
| Papur | Arian papur sy'n cael ei ddefnyddio i brynu pethau. | Mae gen i 2 bapur £5 yn fy waled. |

# Gemau geirfa - Adnoddau

| Gair | Diffiniad | Enghraifft |
|---|---|---|
| Cyfanswm | Y swm cyfan. Canlyniad adio pethau at ei gilydd. | Os byddaf i'n prynu lolipop am 50c a losin am 10c, mae'n rhaid i mi roi cyfanswm o 60c i'r siopwr. |
| Arian | Darnau arian neu arian papur sy'n cael ei ddefnyddio i dalu am bethau. | Rwy'n cadw fy arian yn ddiogel mewn blwch cynilo. |
| Pris | Y gwerth a roddir ar eitem i'w gwerthu. | Pris y tegan hwn yw £10. |
| Dewis | Y weithred o ddewis rhywbeth o wahanol opsiynau. | Mae gen i ddewis o lawer o wahanol deganau i'w prynu. |
| Ennill | Cael arian neu rywbeth o werth yn gyfnewid am waith. | Rwy'n gallu ennill arian trwy helpu i lanhau a thacluso. |
| Siop | Lle y gellir prynu eitemau ag arian. | Byddaf i'n mynd i fy siop leol i brynu bara a llaeth. |
| Gwerth | Beth allech chi ddisgwyl i rywun ei dalu amdano neu beth fyddech chi'n fodlon ei dalu amdano. | Mae gen i'r hen dedi hwn a oedd yn perthyn i fy nhaid. Er ei fod yn hen iawn, ei werth yw £200. |
| Sgiliau | Galluoedd, doniau neu wybodaeth, y gellir eu defnyddio i wneud tasg yn llwyddiannus. | Mae jyglo, bod yn gyfeillgar, ysgrifennu â llaw, darlunio a meddwl am syniadau da, yn enghreifftiau o wahanol sgiliau. |